

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Safleoedd arddangos

Prosiect 'Canolbwyntio ar y traed' ar fferm Graig Olway

Clefyd yr Ynn

Byddwch yn ddiogel wrth drin coed y mae clefyd yr ynn wedi effeithio



Ein Ffermydd

Cychwynnwyd ar amrywiaeth o brosiectau a fydd yn sail i benderfyniadau yn y dyfodol ar ffermydd Cymru ar safleoedd arddangos newydd Cyswllt Ffermio.


Mae'r prosiectau, sy'n ymwneud â'r diwydiant llaeth, cig coch, dofednod a choedwigaeth, yn cael eu cyflwyno ar y 18 fferm sydd wedi eu recriwtio y llynedd.

Bydd pob safle yn edrych ar effaith ariannol a ffisegol unrhyw waith prosiect ar y busnes, fel bod ffermwyr eraill yn gallu dysgu o'r profiad.

Gallwch weld y safleoedd sydd yn eich rhanbarth chi trwy edrych ar ein map rhyngweithiol newydd ar ein gwefan a chewch ragor o wybodaeth am y prosiectau sy'n cael eu cynnal ar safleoedd penodol sy'n berthnasol i'ch sector chi yn ein Cyfarwyddiadur Prosiectau Rhwydwaith Arddangos.



<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/ein-ffermydd>



Prosiect Safle Arddangos

Safle Arddangos: GRAIG OLWAY, Brynbuga

Swyddog Technegol: Gwenan Evans

Teitl y Prosiect: Canolbwyntio ar y traed: lleihau cloffni mewn buches odro robotig

Cyflwyniad i'r prosiect:

Ar ffermydd llaeth, mae cloffni yn parhau i fod yn broblem iechyd fawr ac mae'n cael effaith negyddol ar iechyd cyffredinol y fowch a'i chynhyrchiant. Mae gofyn rhoi dulliau newydd ar waith sy'n cwmparu'r fferm gyfan i leihau effaith cloffni ar les a chynhyrchiant y buchod.

Yn Graig Olway, dynodwyd lleihau lefelau cloffni a gwella cyfforddusrwydd y fowch fel dau o'r prif amcanion wrth wella lles y fuchus laeth tra'n cynyddu cynhyrchiant hefyd. Oherwydd system odro wirfoddol y fferm, mae gwartheg cloff yn debygol o fynd at y robot lai o weithiau na buchod iach, felly, mae cloffni yn cael mwy o effaith ar y fuchus na systemau eraill.

Nod y prosiect yn Graig Olway fydd gweithredu Rhaglen Traed Iach yr AHDB, ac asesu effaith gweithredu'r argymhellion allweddol ar gloffni a symudedd yn y fuchus. Ar sail y data presennol am friwiau yn Graig Olway, disgwylir y bydd angen dull trin 'blitz' i ddermatitis digidol. Bydd monitro'r ymateb hwn yn creu'r astudiaeth achos gyntaf o'i math mewn buches odro robotig.

Amcanion y prosiect:

Prif amcan y prosiect yw pennu cywirdeb sgorio dermatitis digidol (DD). Ar ddechrau Ionawr 2020, rhoddwyd sgôr symudedd a sgôr DD wrth y cafn porthi i'r gwartheg i gyd (Ffig. 1). Bydd y sgoriau yma wedyn yn cael eu cymharu â'r sgôr yn y crysh trimio traed (Ffig. 2) i bennu cywirdeb y technegau sgorio cloffni.

Ar ôl sgorio wrth y crysh trimio traed, bydd yr holl wartheg ag arwyddion o DD yn mynd trwy'r driniaeth 'blitz'; gan ddefnyddio triniaeth wrthfotig arwynebol drwyddedig wedi ei ragnodi gan filfeddyg y fferm. Byddant yn cael eu hail-archwilio am ddau ddiwrnod olynol a bydd triniaethau dilynol yn cael eu rhoi pan fydd angen. Yn dilyn y driniaeth 'blitz' gychwynnol, bydd yr holl wartheg yn cael sgôr symudedd chwarterol i fonitro eu cynnydd. Bydd amserlen rheoli symudedd yn cael ei chreu wedyn i sicrhau bod pob agwedd ar reoli cloffni yn rhan o batrwm arferol y fferm.

Bydd effeithiolrwydd gweithredu rhaglen reoli cloffni wedi ei thargedu yn cael ei phennu gan y lefelau cloffni yn y fuchus. Bydd mantais costau tymor byr gweithredu'r dull trin 'blitz' ar DD mewn buches odro robotig yn cael ei gyfrifo.

Dynodwyd cyfforddusrwydd y buchod hefyd fel maes y gellid ei wella sy'n effeithio ar gloffni, briwiau ar y gwadnau a DD yn benodol, felly, gwneir rhai newidiadau i'w rheolaeth a'u cyfforddusrwydd.

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

- Lleihau % Cloffni i <10% (39% ar hyn o bryd)
- Lleihau % DD i <10% (39% ar hyn o bryd)




Ffigwr 1. Rhoi sgôr DD wrth y cafn porthi



Ffigwr 2. Rhoi sgôr DD yn y crysh trimio traed

LLINELL AMSER A CHERRIG MILLTIR:





Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Mae'r canfyddiadau gwyddonol diweddaraf a thechnolegau newydd yn hanfodol i'r diwydiannau amaethyddol a choedwigaeth. Trwy ffyrdd newydd o weithio a gwell dealltwriaeth o faterion iechyd anifeiliaid galluogir ffermwyr a choedwigwyr i symleiddio eu busnesau a dod yn fwy effeithlon. Ond sut mae ffermwyr a choedwigwyr yn dysgu am y wyddoniaeth ddiweddaraf a thechnolegau newydd?

Cynllun cydweithredol yw Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio gydag IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r staff sydd yno yn chwarae rôl bwysig yn pontio'r bwlch rhwng ymchwil ac ymarfer. Maent wedi bod yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i helpu i siapio'r prosiectau sy'n cael eu cynnal ar y rhwydwaith arddangos, yn ogystal â chyfrannu at y grwpiau sy'n datblygu prosiectau trwy Bartneriaeth Arloesi Ewrop (EIP Wales).

Isod mae enghreifftiau o syniadau a thechnolegau newydd o'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth. Mae'r rhain yn bwydo i brosiectau newydd sy'n cael eu datblygu yn y rhwydwaith arddangos.

I ddarllen erthyglau technegol y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth ewch i <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/canolfan-cyfnewid-gwybodaeth>

Mae tri maes lle gellid datblygu technolegau canfod cloffni awtomatig: **cinetig** (yn mesur grymoedd mewn symudiad), **cinematig** (yn mesur amser a phellter) neu **ddulliau anuniongyrchol** (yn defnyddio amrywiadau ymddygiadol neu gynhyrchiant fel dangosyddion o broblemau symudedd).

1. DULL CINETIG



Mae'r datblygiadau **cloffni cinetig awtomatig** yn cynnwys platiau pwysedd a allai gael eu gosod mewn parlwr neu eu gosod ar lwyfannau gwahanol, ac maent yn gywir hyd at 96%.

2. DULL CINEMATIG



Mae **datblygiadau cloffni awtomatig cinematig** yn defnyddio symudiad carnau/ cymalau coesau ac ati, yn ogystal â defnyddio algorithmau prosesu delweddau i ganfod cloffni sydd yn gywir hyd at 95%.

3. DULL ANUNIONGYRCHOL



Gall technolegau **adnabod amledd radio (RFID)** sydd eisoes yn cael eu defnyddio gael eu cysylltu â systemau eraill i gasglu data gwartheg i'w dadansoddi ar gyfer patrymau rhybuddio.

Mae **thermograffeg isgoch**, technoleg yn seiliedig ar ganfod golau isgoch a'i drosi yn broffiliau tymheredd yn cael ei ddatblygu i asesu briwiau traed gyda chyfraddau llwyddiant amrywiol.

Mae **olrhain GPS** yn cynnig rhagolygon i weld newidiadau mewn ymddygiadau wrth symud a all fod yn gysylltiedig â chloffni a mathau eraill o salwch.

Mae **canfod cloffni awtomatig anuniongyrchol** yn cynnwys mesuryddion cyflymder ar y gwar/coesau sy'n monitro lefelau a phatrymau gweithgaredd ac yn gallu cael eu defnyddio i ddynodi buchod yn gofyn tarw a hyd yn oed afiechyd. Mae IceRobotics, SCR Heatime, Silent Herdsman a RumiWatch yn enghreifftiau o'r dechnoleg yma sydd ar gael yn fasnachol.

Gall **systemau godro awtomatig** gael eu cysylltu i ganfod cloffni trwy ostyngiad yn yr ymweliadau a'r llaeth a gynhyrchir.

YMLAEN I'R CAM NESAF

Teulu o Sir Benfro â'u bryd ar dyfu eu model busnes 'o'r giât i'r plât'!



Ers dychwelyd i'w gwreiddiau Cymreig wyth mlynedd yn ôl, mae'r ffermwyr ifanc, Steve a Kara Lewis wedi adeiladu nifer o fentrau fferm llwyddiannus ar y fferm 30 erw yr oedden nhw'n ei rentu gan Gyngor Sir Penfro ger Hwlfordd. Llwyddodd eu hymdrechion i dalu ar eu canfed ym mis Ionawr y llynedd wrth i'r cwpwl a'u plant ifanc symud i fferm 100 erw arall sy'n eiddo i'r cyngor, sef West Ford, Trefgarn.

Prif nod y pâr yw gwella ansawdd y borfa a datblygu eu diadell o 100 o famogiaid masnachol sy'n cael eu cynhyrchu oddi ar y borfa'n bennaf. Ynghyd â hyn, bydd Steve hefyd yn parhau i weithio fel contractwr hunangyflogedig yn darparu gwasanaethau sganio a rhew-frandio.

Gyda mwy na theingwaith nifer yr erwau a'r potensial i gynyddu niferoedd stoc yn sylweddol, mae Steve yn benderfynol o ehangu ei fusnes ar-lein a dosbarthu llwyddiannus, sef Pembrokeshire Lamb, a sefydlwyd yn 2019 gyda chymorth Cyswllt Ffermio.

Mae Steve yn rhoi clod i'r hyfforddiant busnes un i un a dderbyniodd drwy Cyswllt Ffermio a gwblhaodd gyda'r darparwr cymeradwy, Really Pro o Sir Benfro, am ddarparu'r weledigaeth strategol a'r sgiliau angenrheidiol iddo sefydlu Pembrokeshire Lamb, sy'n gwerthu blychau cig oen, cig hesbinod a chig dafad o'r ansawdd gorau 'o'r giât i'r plât' yn uniongyrchol i gwsmeriaid. Cwblhaodd Steve ddau gwrs, sef "Cynllunio a datblygu busnes" a "Marchnata eich busnes".

"O fewn ychydig fisoedd yn unig, llwyddodd Kelly Monroe, un o hyfforddwyr busnes fferm arbenigol Really Pro i roi cyfeiriad newydd i mi ar gyfer y busnes; cynllun busnes a chynllun ariannol dealladwy; strategaeth farchnata a chyfryngau cymdeithasol ac roedd gen i'r hyder i lansio brand newydd a lwyddodd yn fuan iawn i ennill hygyrdded ac apelio at ein hystod gynyddol o brynwyr."

Ym mis Tachwedd y llynedd, cymerodd Steve stondin yn y BBC Good Food Show yn yr NEC, Birmingham. Roedd yn fuddsoddiad dewr,

ond roedd ymateb y cyhoedd i'r cannoedd o samplau poeth o gig oen Cymru wedi'u gweini mewn ystod o sawsiau a marinadau blasus a ddatblygwyd gan Kara yn y gegin yn arwydd clir o'r cam nesaf yn eu datblygiad.

"Rydym ni bellach yn gweithio gyda Chanolfan Bwyd Cymru i ddatblygu ein hystod ein hunain o sawsiau Pembrokeshire Lamb, a fydd yn ychwanegu gwerth at ein cynnyrch cig oen craidd, a phwy â wŷr beth a ddaw yn y

dyfodol," meddai Steve, sydd eisoes yn cadw llygad barud ar y silffoedd 'prydau parod' yn ei archfarchnadoedd lleol!

Bydd cyfnod ymgeisio nesaf Cyswllt Ffermio ar gyfer sgiliau ar agor o **ddydd Llun 4 Mai** hyd **ddydd Gwener 26 Mehefin**.

Am ragor o fanylion, ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Hyfforddiant TG wedi ei ariannu'n llawn... angen help llaw?



Am ragor o wybodaeth, ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio neu cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813**.

I DDECHREUWYR LLWYR:

Cwrs hyfforddi chwe wythnos, yn cael ei ddarparu trwy sesiwn dwy awr yr wythnos, wedi ei ddylunio i roi sgiliau TG sylfaenol y gallwch eu defnyddio yn eich busnes. Yn cael eu darparu ledled Cymru ar lefel a chyflymder addas i chi.

TIWTORA UN I UN:

Hyd at ddau ymweliad cartref dwy awr wedi eu hariannu'n llawn gan diwtoriaid TG arbenigol. Yr hyfforddiant yn cael ei addasu i'ch gofynion, gan ganolbwyntio ar unrhyw broblemau neu fylchau yn eich gwybodaeth.

GWEITHDAI:

Dysgwch sut i integreiddio'r dechnoleg TG ddiweddaraf i'ch busnes, gan gynnwys apiau rheoli ffermydd; defnyddio drôn; creu gwefan; defnyddio cyfryngau cymdeithasol i'ch busnes a diogelwch ar-lein.

Byddwch yn ddiogel wrth drin coed y mae clefyd coed ynn wedi effeithio arnynt

Mae clefyd coed ynn, sy'n cael ei achosi gan y ffwng *Hymenoscyphus fraxineus*, wedi mynd yn gyffredin trwy Gymru erbyn hyn. Lladdwr damweiniol yw'r ffwng sy'n amharu cymaint ar goed ynn Ewropeaidd yn ein coetiroedd hynafol a chynefin rhannol naturiol oherwydd mae'r pathogen yn byw yn hollol ddiniwed yn ei gynefin naturiol, onnen Manshwria, yn y dwyrain pell, Asia a Siapan. Ond pan gyflwynwyd yr onnen Manshwria i Orllewin Ewrop, fe neidiodd y ffwng i'n honnen Ewropeaidd ni nad oedd yn gallu gwrthsefyll y pathogen.



Ffigwr 1. Clefyd yr ynn - dail iach ac wedi eu heintio
Llun trwy garedigrwydd Forestry Commission. © Crown Copyright

Yr onnen yw'r drydedd rywogaeth fwyaf cyffredin o goed llydanddail yn y Deyrnas Unedig ac mae'n cyfateb i 5% o'n gorchudd o goetir cynhenid.

Mae canlyniadau o bwys mawr i'r gostyngiad yn ei niferoedd, ac mae colli bioamrywiaeth a'r lleihad yn yr ecosystemau sy'n gysylltiedig â'r onnen ymhlith y rhai pwysicaf. Mae'r rhain yn

cynnal blodau nad ydynt yn gallu dioddef cysgod gormodol fel clychau'r gog a briallu, a hefyd rhywogaethau fel gloynnod byw, ystumod a'r pathew. Gwyddys bod dros 100 o rywogaethau o bryfed yn gysylltiedig â'r onnen, gyda 27 o'r rhain yn hollol ddibynol arni.

Mae'r afiechyd yn effeithio ar system fasgwlar y goeden. Mae'r pathogen yn creu tocsin a elwir yn Veridiol sy'n achosi necrosis yn y gwynnin ac yn effeithio ar allu'r goeden i dynnu maetholion i fyny i'w changhennau uchaf. Y dulliau diagnostig allweddol yw'r siâp diemwnt o gwmpas yr egin sy'n tyfu o'r coesyn a'r lliw porffor o gwmpas yr ardal heintiedig.

Mae'r ffwng yn gaeafu yn y gweddillion dail ar y ddaear, ar goesynnau dail yr onnen yn neilltuol. Mae'n cynhyrchu ffrwythgyrff bach gwyn rhwng Gorffennaf a Hydref sy'n rhyddhau sborau i'r atmosffer, sydd wedyn yn mynd i mewn i'r goeden trwy'r dail.

Gall coed ynn aeddfed sy'n cael eu heintio â chlwy'r coed ynn oroesi am nifer o flynyddoedd, ond yn aml maent yn dioddef ymosodiad arall gan blâu neu bathogenau eraill, gan gynnwys ffwng melog. Ffwng parasitig yw hwn sy'n difrodi a lladd gwreiddiau llawer o goed a all achosi pydredd y gwreiddiau ac arwain at weld y goeden yn syrthio.

Mae'r agwedd iechyd a diogelwch wrth dorri'r coed yn bwysig iawn, a dylai ffermwyr a choedwigwyr fod yn ymwybodol y bydd coed aeddfed sydd wedi dioddef wedi dechrau dirywio. Bydd y coed yn colli cryfder y pren yn gyflym ac maent yn debygol o fethu yn strwythurol, ond hefyd, mae'r goeden ei hun yn mynd yn ansefydlog oherwydd bod ei gwreiddiau yn marw a gall gael ei chwythu gan y

gwynt, gan wneud rheoli a thorri coed sydd wedi eu heintio yn beryglus a chostus.

Bydd gan y coed sydd i'w torri gyfran uchel o bren marw yn y brigdyfiant ac maent hefyd yn debygol o beidio â bod yn gryf ar uchder y torri. Felly mae'n hanfodol ystyried sut i gynllunio'r gwaith torri i gael gwared â'r risg o ddamwain neu anaf i'r rhai sy'n defnyddio llif gadwyn fydd yn gweithio yn yr ardaloedd hyn.

Rhaid i ystyried a ellid gwneud y gwaith mewn rhyw fodd arall fod yn brif ystyriaeth. Argymhellir mai'r dull rheoli gorau fydd defnyddio offer cynaeafu mecanyddol lle mae'r gweithredwr mewn cab i'w ddiogelu.

Pan na fydd hyn yn bosibl mae'n fwy hanfodol nag erioed i ddefnyddiwr y llif gadwyn fod yn fedrus a bod ganddo'r offer priodol.

Mae'n bwysig cofio bod angen trwydded i dorri coed sy'n tyfu, gan gynnwys coed ag afiechyd a choed sy'n marw, oni bai bod eithriad penodol yn berthnasol.



Ffigwr 2. Pan fydd y coed wedi eu gwanhau yn fawr gan yr afiechyd, argymhellir defnyddio dulliau torri coed mecanyddol

Mae'r eithriadau i drwyddedau torri yn cynnwys y canlynol:

- Cael gwared ar bren marw e.e. tocio
- Torri coed bychan llai na 7" o ddiamedr
- Coed dan gyfaint a nodir (2.5 metr ciwbig bob tri mis os yw i'w werthu neu 5 metr ciwbig bob tri mis at eich defnydd eich hun)

- Coed mewn lleoliadau neilltuol fel mynwentydd, gerddi a mannau agored i'r cyhoedd, perllannau
- Os ystyrir ei bod yn goeden beryglus

Dim ond pan fydd y meini prawf canlynol i gyd yn cael eu bodloni y dylai'r eithriad Deddf Fforestydd gael ei ddefnyddio:

- Mae'r onnen eisoes yn amlwg wedi ei heintio â chlefyd y coed ynn; a,
- Mae o fewn pellter syrthio (h.y. cyfanswm uchder y goeden) i briffordd, rhwydwaith gwasanaeth, seilwaith adeiledig, neu ofod sy'n cael ei ddefnyddio'n aml gan y cyhoedd; a,
- Mae'r rhan fwyaf o frigdyfiant y goeden yn farw; ac
- Y byddai gwaith lleihau brigdyfiant angenrheidiol i gael gwared ar unrhyw goed marw, ym mam gweithiwr proffesiynol cymwys, yn amharu yn sylweddol ar fywiogrwydd (neu olwg) y goeden.

Yn ychwanegol, byddai unrhyw onnen sy'n dangos difrod gwaelodol, naill ai gyda neu heb dystiolaeth o heintiad eilaidd e.e. ffwng melog, hefyd yn dod dan gwmpas yr eithriad coeden beryglus.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am gyfarwyddiadau diogelwch coed cyffredinol i ffermwyr pherchnogion tir; ewch i www.forestresearch.gov.uk/research/common-sense-risk-management-of-trees

Am gyfarwyddyd ar reoli ynn, ewch i www.treecouncil.org.uk/What-We-Do/Ash-Dieback



Geraint Jones

Cyswllt Ffermio
Swyddog Technegol Coedwigaeth

Astudiaeth yn canfod nad yw'r dull o roi cobalt i ŵyn yn dylanwadu ar gyfraddau tyfu



Elan Davies

Cyswllt Ffermio - Swyddog Technegol Cig Coch



Dangosodd treialon ar ffermydd yng Nghymru yn archwilio effeithiolrwydd gwahanol ddulliau o ategu cobalt mewn ŵyn sy'n tyfu bod iechyd a pherfformiad yr un fath.

Gydag ychydig iawn o ddata cyhoeddedig yn cymharu sut y mae bolysau a chwistrelliadau cobalt yn perfformio yn amodau'r Deyrnas Unedig, cychwynnodd South Wales Farm Vets ar y cyd â Cyswllt Ffermio ar astudiaeth ar dair fferm.

Mewn digwyddiad Cyswllt Ffermio ym Mhont-y-clun yn ddiweddar, rhannwyd canlyniadau'r astudiaeth gyda'r ffermwyr gan ddatgan nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ystadegol yn y cynnydd pwysau dyddiol (DLWG).

"Ar gyfartaledd, fe wnaeth yr ŵyn a gafodd y chwistrell ennill 3g ychwanegol y dydd ond nid yw hynny'n ystadegol arwyddocaol," esboniodd y milfeddyg Tom Searle, a arweiniodd yr astudiaeth.

Mae cobalt yn rhan bwysig o'r fitamin B12, sy'n cael ei gynhyrchu yn y rwmen.

Mae ar oen sy'n tyfu angen 200 microgram o gobalt y dydd, ond hebddo, ni fydd yr oen yn tyfu'n dda a bydd ei gyflwr yn wael, bydd yn ddifwyd, yn bwyta llai a bydd ei wlân o ansawdd isel.

Seiliodd Mr Searle yr astudiaeth ar dair fferm gyda gwahanol fathau o bridd gyda bridiau

defaid iseldir ac ucheldir a graddau amrywiol o ddiffyg cobalt.

Roedd y cyfan wedi bod yn rhoi cobalt ychwanegol i'r ŵyn.

Ar bob fferm, pwyswyd 140 o ŵyn efeilliaid ar gyfartaledd pwysau o 20kg a rhoddwyd bolws seleniwm ac iodin iddynt. Cymerwyd samplau gwaed o 20 oen ym mhob grŵp, ac ar draws yr holl ffermydd, dangoswyd bod 52% â diffyg cobalt ar yr adeg hon.

Rhoddwyd bolws cobalt i 70 o ŵyn a rhoddwyd chwistrell fitamin B12 i'r efeilliaid.

Roedd yr ŵyn yn cael eu monitro am dri mis ac yna cawsant eu pwyso, cymerwyd samplau gwaed o'r grwpiau o 20 a brofwyd i gychwyn a chymharwyd eu DLWG.

Os oeddynt wedi cael bolws neu chwistrell, roedd y cynnydd ar gyfartaledd yn 0.128kg/y dydd, adroddodd Mr Searle.

"Yn unol ag ymchwil arall, nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol ar DLWG rhwng y cynhyrchion."

Mae effeithiolrwydd y cynnyrch yn ddibynnol ar y fferm ac mae'n debygol o fod yn gysylltiedig â lefel y diffyg wrth ddechrau ei ddefnyddio, ychwanegol Mr Searle.

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r astudiaeth, dylai'r ffordd y mae fferm yn dewis ategu cobalt i ŵyn

20kg gael ei bennu gan benderfyniadau rheoli, gan y bydd pob dull yn cyflawni i'r un graddau; dylid hefyd ystyried costau, rhwyddineb trin, ac os yn rhoi bolysau, gallu'r unigolyn sy'n rhoi'r bolws.

Dangosodd yr ail set o samplau gwaed bod 12% o'r ŵyn yn dal â diffyg o ran cobalt er eu bod wedi cael cobalt ategol. "Mae cynhyrchion ategol yn mynd beth o'r ffordd tuag at ymdrin â diffygion, ond fel mae'r astudiaeth hon yn dangos nid ydynt yn ddi-ffael," dywedodd Mr Searle.

Mae mân-flodau'r rwmen yn troi cobalt yn fitamin B12. Bydd y fitamin hwn wedyn yn cael ei amsugno gan yr oen bob yn ychydig.

Mae fitamin B12 yn elfen hanfodol o ensymau yn yr oen sy'n ymwneud â metabolaeth protein, braster a charbohydrad.

Os bydd cobalt yn brin, bydd hyn yn cyfyngu ar gynhyrchu fitamin B12 a bydd yn arwain at weld na fydd yr ŵyn yn gallu tyfu a gweithredu'n iawn.

Dywedodd Mr Searle mai ei argymhellad ar gyfer sicrhau bod gan ŵyn lefelau digonol o gobalt yw rhoi chwistrell o fitamin B12 yn dair wythnos oed, i rwystro'r ataliad ar dyfiant ar ôl diddychu. Bydd hyn yn effeithiol heb fod angen rwmen sy'n gweithio, dywedodd.

"Trwy ddefnyddio data o Seland Newydd, bydd rhoi 0.5ml o fitamin B12 yn dair wythnos oed yn cynnal lefelau digonol yn y gwaed am

hyd at bedwar mis," dywedodd.

"Gellir rhoi dos uwch o 1ml i ŵyn benyw cadw ac, mewn rhai anifeiliaid, gall hyn sicrhau bod lefelau digonol yn y gwaed am wyth mis."

Ond mae angen rhagor o ymchwil ar ei effeithiolrwydd yng Nghymru, ychwanegodd Mr Searle.

Mae ffermydd gyda phridd dwfn tywodlyd neu pH alcaliaidd yn fwy tebygol o gael problemau gyda diffyg cobalt.

Mae'r math o blanhigion hefyd yn bwysig; mae codennau yn well am grynhoi cobalt na glaswelltau.

Bydd chwalu calch hefyd yn lleihau faint o gobalt y bydd planhigion yn ei gymryd i mewn, a bydd glaw trwm yn golygu bod cobalt yn cael ei golli o'r pridd uchaf.

Bydd cynydu porthiant sy'n tyfu'n gyflym hefyd yn gwanhau'r cobalt.

Dywedodd Elan Davies, swyddog technegol cig coch Cyswllt Ffermio, y dylai ategu cobalt fod yn flaenoriaeth y tymor hwn gan y gall y gaeaf gwlyb amharu ar yr elfennau hybrin sydd ar gael ac effeithio ar gyfraddau tyfu ŵyn.

"Mae ategu elfennau hybrin yn y modd cywir i ŵyn yn hanfodol i sicrhau eu bod yn cyflawni'r cyfraddau tyfu uchaf, gyda chobalt yn aml yn cael yr effaith mwyaf," dywedodd.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

Gall teirw sydd â mynegai uchel leihau'r gormodedd o loi llaeth gwryw ar ffermydd yng Nghymru

Gall troi heffrod at y tarw yn gynt a defnyddio gwahanol dechnegau cydamseru alluogi ffermydd llaeth sy'n lloea mewn bloc i gynyddu eu helw o'u buddsoddiad mewn semen yn ôl ei ryw a lleihau niferoedd y lloeau llaeth gwryw dros ben.

Wrth i'r pwysau godi ar gynhyrchwyr llaeth i leihau'r niferoedd o loi llaeth gwryw sy'n cael eu difa ar ôl eu geni, mae'r ffermwr gwartheg Kirsten Hoggard wedi bod yn ymchwilio opsiynau ar gyfer ei buches 350 o wartheg sy'n lloea yn yr Hydref ar ei fferm ym Moncath, Sir Benfro.

Derbyniodd Kirsten gyllid fel rhan o Raglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio i astudio'r cynnydd a wneir gan ffermwyr yn Iwerddon wrth leihau'r niferoedd o loi llaeth gwryw dros ben.

Dywedodd Kirsten, "Roeddwn i eisiau defnyddio'r prosiect hwn fel cyfle i edrych ar wahanol opsiynau, a throï'r anifeiliaid hyn o fod yn isgynhyrchion diwerth i fod yn fuddiol i'r busnes ffermio gan ychwanegu gwerth at laethiad pob buwch".

Yng ngholeg Clonakilty yn Cork, dysgodd hi am y rolau positif a negyddol sy'n ymwneud â semen yn ôl ei ryw.

"Un o'r pethau positif wnaethon ni drafod oedd defnyddio semen yn ôl ei ryw i helpu symleiddio'r broses o fagu heffrod gan

fridio heffrod cyfnewid o'r gwartheg 'gorau' yn unig er mwyn cyflymu buddion genetig". "Mae hwn yn ffordd wych i ehangu buches heb beryglu bioddiogelwch, ac mae'n galluogi bridio canran ehangach o'r fuches ar gyfer bîff, a allai wneud mwy o arian o'r allbwn cig eidion cynyddol."

Fodd bynnag, mae yna rai agweddau negyddol i ddefnyddio semen yn ôl ei ryw oherwydd gall y cyfraddau beichiogi fod yn llai na hanner y gyfradd drwy ddefnyddio semen confensiynol; mae hyn yn lleihau nifer y dyddiau mewn llaeth ar gyfer gwartheg sydd ddim yn beichiogi gyda semen yn ôl ei ryw, ac felly'n ei wneud yn ffordd ddrud o gael heffrod cyfnewid, dywedodd Kirsten.

"Er y gallwn geisio lleihau'r golled hon gan gynyddu nifer yr heffrod sy'n cael eu troi at y tarw i wrthweithio'r lleihad mewn cyfradd beichiogi, cynigodd Stephen Butler o Goleg Clonakilty y dylid rhoi semen yn ôl ei ryw i'r heffrod yn gynharach gan nad yw'n dylanwadu cymaint ar y fuches odro os nad ydynt yn beichiogi ar y tro cyntaf.



"Mae hyn yn gwneud y gorau o'r eneteg datblygedig ar y fferm gan fridio o'r gwartheg gorau ar y fferm."

Hefyd, ychwanegodd Kirsten y gall archwilio gwahanol dechnegau cydamseru fod yn ddefnyddiol wrth gael y gorau o'r semen yn ôl ei ryw.

Opsiwn arall yw defnyddio teirw bîff llaeth sydd â mynegai uchel, mynegai sy'n benodol ar gyfer teirw bîff a ddefnyddir gyda gwartheg llaeth, er mwyn sicrhau carcass gwerthadwy o ansawdd uchel.

Problem gyffredin o fewn y diwydiant yw bod y ffocws ar gyfer dethol teirw bîff, yn enwedig gyda theirw Angus, yn hollol seiliedig ar rwyddineb lloea.

"Mae hyn yn golygu bod anifail yn cael ei fridio heb gyfansoddiad ac weithiau ni fydd yr anifail yn cyrraedd y safon yng nghydestun pesgi, gan ei wneud yn ddiwerth," dywedodd Kirsten.

Ers cwblhau ei hastudiaethau, mae Kirsten wedi ystyried y newidiadau gallai hi eu gwneud ac mae hi wedi gosod cynllun gweithredu.

CYNLLUN GWEITHREDU...

"Byddwn yn defnyddio semen yn ôl ei ryw ar heffrod, gan ganfod yr eneteg orau a throï gwartheg at y tarw yn gynharach ac efallai defnyddio teirw cymell i gynyddu cyfraddau beichiogi. Ond, wrth symud yn ein blaen, defnyddio mwy o semen yn ôl ei ryw cyn y confensiynol er mwyn gwella ansawdd yr holl anifeiliaid ar y fferm".

"Byddwn yn ystyried mynegai terfynol y semen llaeth confensiynol a chadw lloeau gwryw Holstein ar system mewnbyn isel estynedig, yn ogystal â chadw'r anifeiliaid yn organig a gobeithio cael pris gwell amdanynt."

Dywed Kirsten fod y busnes hefyd yn bwriadu defnyddio semen teirw sydd â mynegai uchel i sicrhau anifeiliaid bîff o ansawdd uchel a lloeau a gaiff eu geni ar ddechrau'r cyfnod lloea.

Mae cynhyrchwr wyau buarth yn dweud y gallai ffermwyr dofednod a chadwyn gyflenwi'r diwydiant gydweithio i ddod o hyd i ddefnyddiau eraill ar gyfer y swm sylweddol o dail a gynhyrchir ar ffermydd dofednod ym Mhowys.

Ar ôl arallgyfeirio i gynhyrchu wyau buarth, daeth Sarah James yn ymwybodol o'r problemau dybryd sy'n ymwneud â gwaredu sbwriel a thail gwastraff dofednod.

"Mae gan Ganolbarth Cymru ddwysedd uchel iawn o ffermydd dofednod. Ni all y rhanbarth ymdopi â'r tail a gynhyrchir, ac mae angen cynyddol i ddod o hyd i ddefnyddiau eraill i droi'r cynnyrch gwastraff hwn yn ased ac ychwanegu ffrwd incwm arall," meddai Sarah, sy'n ffermio ger Llandrindod.

Nid yw gwastraff dofednod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd 'wybodus' er mwyn gwella tir, ychwanega.

"Mae grwpiau trafod wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw ffermwyr yn cynnal digon o brofion, a phan fyddant yn gwneud hynny, nid ydynt yn deall amrywiadau ac effaith defnydd ar y tir yn llawn.

"Ychydig iawn o ddata sydd ar gael i ffermwyr i gynnig canllawiau ar sut i fanteisio i'r eithaf ar yr ased gwerthfawr hwn."

Diolch i fwrsariaeth Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio, ymwelodd Sarah â'r Iseldiroedd, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr i astudio sut mae'r diwydiant dofednod yn y gwledydd hynny'n delio â'u gwastraff.

Ei nod oedd edrych ar brosesu tail a gwastraff ar gyfer cynhyrchu ynni gwyrdd i wrthbwysu ôl troed carbon y sector a chyfrannu at faterion ehangach yn ymwneud ag economi wledig a thwf ym Mhowys.

Dysgodd fod angen lefel uchel o fuddsoddiad ar unrhyw brosiect i brosesu tail a gwastraff.

Mae amrywiad yn ansawdd a dulliau ffermio yn ogystal ag ansawdd y gwastraff yn pennu sut y gellir ei ddefnyddio, darganfu.

"Mae pob un o'r tair proses a welais ar waith – treulio anaerobig, llosgi a phelennu ar raddfa enfawr ac ar y fferm – yn cynnig manteision ac anfanteision, ond maent hefyd yn ddibynnol ar grantiau'r Llywodraeth ar ffurf tariff cyflenwi trydan wrth edrych ar gynhyrchu ynni gwyrdd," meddai Sarah.

Mae hefyd yn dibynnu'n helaeth ar gyflenwad cyson o'r cynnyrch crai o'r fferm.

"Bydd yr ateb yn gofyn am gydweithio rhwng grwpiau o ffermydd. Bydd angen hefyd iddo gynnwys y diwydiant ehangach gyda chyfraniad gan y sector bwydo/contractio/pecynnu," awgrymodd Sarah.

Mae Sarah wedi sefydlu gwefan, circularfarming.co.uk i gasglu data i helpu i gael gwell dealltwriaeth o faint y broblem.

Mae Sarah yn cydnabod nad oes un ateb cyflym i'r broblem.

"Bydd angen i ni weithio gyda'n gilydd ar draws y diwydiant i ganfod ateb cynaliadwy er mwyn i ni sicrhau bod modd mynd i'r afael â materion mwy megis allyriadau effeithiau amgylcheddol i fodloni targedau'r diwydiant," meddai.

"Mae angen cael gwell dealltwriaeth o'r broblem a mesur hyn. Gallai'r ateb gyfrannu at sicrhau bod y diwydiant dofednod ehangach yn dod yn garbon niwtral."





DULL WEDI EI DARGEDU WRTH REOLI BUCHOD SYCH I LEIHOU'R DEFNYDD O WRTHFIOTIG

Mae tri ffermwr yng ngogledd ddwyrain Cymru yn ymchwilio a all darn newydd o dechnoleg eu helpu i gyrraedd eu nod o leihau'r defnydd o wrthfotig heb amharu ar iechyd a lles y fuches. Mae'r ffermwyr yn y gwybodaeth wedi bod yn gweithio i leihau'r achosion o mastitis ar eu ffermydd, ond, roeddent yn dal yn nerfus wrth ddefnyddio seliwr tethi yn unig wrth sychu eu buchod.

Mae QScout Farm Lab yn ddarn newydd o offer sy'n caniatáu i bob chwarter godro gael ei samplu a'i brofi gan ddefnyddio'r prawf lewcocyt gwahaniaethol Ilaeth (MLD). Cyn sychu'r gwartheg, cymerir sampl o laeth o bob chwarter a bydd y milfeddyg yn mynd ag o i labordy LLM Farm Vets yn Wrecsam i'w ddadansoddi. Yna, bydd yn cael ei benderfynu a oes angen therapi gwrthfotig ar chwarteri unigol i frwydro yn erbyn heintiad yn y deth, neu a allant gael eu sychu gan ddefnyddio seliwr teth mewnol yn unig.

Manteision QScout Farm Lab

- Mae'r prawf yn fwy cywir na Phrawf Mastitis Califfornia (CMT), sy'n dibynnu ar y dehongliad, ac yn ychwanegol, dim ond unwaith y mis y mae'r prawf Cyfrif Celloedd Somatig (SCC) yn cael ei gynnal wrth gofnodi Ilaeth.
- Mae canlyniadau'r profion ar gael yn gyflym iawn, sy'n golygu y gall rheolwyr stoc Ilaeth gael y data diweddaraf am iechyd y pwrs sy'n golygu eu bod yn gallu bod yn hyderus yn eu penderfyniadau ar gyfer pob buwch a phob chwarter.
- Mae samplau yn gallu cael eu cymryd yn hawdd yn y parlwr godro, a dylid clirio'r Ilaeth cyn cymryd sampl.
- Hawdd eu storio; mae angen cadw samplau allan o'r haul ac yn oer, ond nid oes angen eu cadw mewn oergell.



Ffigwr 1. Offer QScout Farm Lab ym mhractis milfeddygol Lambert Leonard and May (LLM) Wrecsam. Nid yw'r offer ar gael yn fasnachol eto i'w brynu.

FFEITHIAU FFERM

Mae'r tair buches laeth yn cynnwys cyfanswm o tua 800 o fuchod Holstein Friesian sy'n Ilaetha. Mae'r tair buches mewn ardal ddaeryddol debyg.

FFERM 1

- Buches 180 yn lloea trwy'r flwyddyn
- Pori yn ystod y dydd o'r gwanwyn hyd yr hydref
- Cynhyrchiant o 10,000 litr gan bob buwch y flwyddyn
- Godro ddwywaith y dydd
- Cyfartaledd y cyfrif celloedd mewn blwyddyn 165,000/ml
- Mae 3-5 o fuchod yn cael eu sychu bob wythnos gan ddibynnu ar y cynnyrch a'r dyddiad lloea

FFERM 2

- Buches o 300 buwch yn lloea trwy'r flwyddyn yn magu eu stoc cyfnewid eu hunain
- Cynhyrchiant o 10,500 litr gan bob buwch y flwyddyn
- Godro ddwywaith y dydd
- Cyfartaledd y cyfrif celloedd mewn blwyddyn yn 154,000/ml
- Mae 5-7 o fuchod yn cael eu sychu bob wythnos gan ddibynnu ar y cynnyrch a'r dyddiad lloea

FFERM 3

- Buches o 300 buwch yn lloea trwy'r flwyddyn yn magu eu stoc cyfnewid eu hunain
- 8,500 litr gan bob buwch y flwyddyn
- Godro ddwywaith y dydd
- Cyfartaledd y cyfrif celloedd mewn blwyddyn yn 176,000/ml
- Mae 5-7 o fuchod yn cael eu sychu bob wythnos gan ddibynnu ar y cynnyrch a'r dyddiad lloea

Mae Steven Massey, Fferm Pentre Isaf, Rhiwabon, un o'r ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y prosiect, eisoes wedi sychu 29 o fuchod gan ddefnyddio'r dechnoleg newydd hon. Dangosodd y profion, i 11 o'r anifeiliaid, mai dim ond seliwr teth oedd ei angen, gan arbed ar y defnydd o wrthfotig ar gyfer y buchod hyn. Ni fyddai rhai o'r buchod hyn a brofwyd wedi cael eu trin â gwrthfotig wrth ddibynnu ar ddata cyfrif celloedd cofnod Ilaeth yn unig, sy'n golygu y byddent wedi lloea gyda mastitis.

Gall y prawf newydd hwn roi hyder i ffermwyr sy'n bryderus am therapi buchod sych dethol i ddechrau defnyddio seliwr tethi yn unig, yn ogystal â chael gwybodaeth bendant am ba chwarteri sydd angen gwrthfotig.



PODLEDIAD CLUST I'R DDAEAR

Cyfres o bodlediadau ar gael i wrando NAWR.

Mae 'Clust i'r Ddaear' yn bodlediad newydd sbon, y cyntaf o'i math i fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Bydd yn rhannu gwybodaeth dechnegol, cyngor, cefnogaeth ac ysbrydoliaeth i'r gymuned amaeth yng Nghymru.

Mae'r penodau canlynol ar gael trwy wefan Cyswllt Ffermio ac ar Apple iTunes a Spotify. Bydd pennod newydd yn cael ei chyhoeddi bob pythefnos ar amrywiaeth o themâu. Lawrlwythwch y podlediad i wrando yn eich sied ddefaid, parlwr godro neu yn eich tractor.

Rhifyn 1 - Pori cylchdro

Rhifyn 2 - Arloesi ac Arallgyfeirio

Rhifyn 3 - Ffermio'r amgylchedd

Rhifyn 4 - John Yeomans

Rhifyn 5 - Yr ysgolhaig Nuffield Rick de Vor o'r Iseldiroedd

Rhifyn 6 - Academi Amaeth: Grwp Busnes ac Arloesedd - Taith astudio i'r Iseldiroedd

Rhifyn 7 - Tyfu coed Nadolig gyda David Phillips

Rhifyn 8 - Safle Arddangos Cyswllt Ffermio: Erw Fawr, Caergybi, Ynys Môn

Rhifyn 9 - Taith Astudio'r Academi Amaeth lau i Wlad yr Iâ

Rhifyn 10 - Technoleg "Feed Face" Genus yn cael ei dreialu ar fferm odro robotig

Rhifyn 11 - Arallgyfeirio ar Ffermydd gyda Jeremy Bowen Rees

Rhifyn 12 - Trawsnewid i Ffermio Llaeth

Rhifyn 13 - Diwrnod Hud a gwerth glaswellt y gwanwyn gyda Rhys Williams, Precision Grazing Ltd

businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/podlediad-clust-ir-ddaear

Gwrandewch ar...



Gwefan Cyswllt Ffermio



Apple Podcasts



Spotify

Amserlen Cymorthfeydd:

Teitl	Dyddiad / Amser	Cyswllt
Cymhorthfa Gynllunio	08/04/20 - 09:00 - 17:00	Delyth Jones - delyth.jones@menterabusnes.co.uk
Cymhorthfa Olyniaeth	16/04/20 - 09:00 - 17:00	Delyth Jones - delyth.jones@menterabusnes.co.uk
Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio	22/04/20 - 09:00 - 17:00	Delyth Jones - delyth.jones@menterabusnes.co.uk
Cymhorthfa Gynllunio	28/04/20 - 09:00 - 17:00	Delyth Jones - delyth.jones@menterabusnes.co.uk
Cymhorthfa Olyniaeth	06/05/20 - 09:00 - 17:00	Delyth Jones - delyth.jones@menterabusnes.co.uk
Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio	12/05/20 - 09:00 - 17:00	Delyth Jones - delyth.jones@menterabusnes.co.uk
Cymhorthfa Olyniaeth	14/05/20 - 09:00 - 17:00	Delyth Jones - delyth.jones@menterabusnes.co.uk
Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio	19/05/20 - 09:00 - 17:00	Delyth Jones - delyth.jones@menterabusnes.co.uk
Cymhorthfa Olyniaeth	21/05/20 - 09:00 - 17:00	Delyth Jones - delyth.jones@menterabusnes.co.uk
Cymhorthfa Marchnata ac Arallgyfeirio	27/05/20 - 09:00 - 17:00	Delyth Jones - delyth.jones@menterabusnes.co.uk

Bydd cymorthfeydd yn cael eu cynnal yn ddigidol, un ai dros y ffôn neu trwy gyswllt fideo.
Mae archebu apwyntiad yn hanfodol.

Cyswllt Ffermio - Diweddariad

Yn dilyn y datblygiadau diweddaraf ynglŷn â Coronavirus, mae pob digwyddiad agored a digwyddiadau gyda nifer o fynychwyr Cyswllt Ffermio wedi eu gohirio hyd ddiwedd mis Mai o leiaf. Gweler ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf.

Byddwn yn gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg a chyfarfodydd dros y ffôn yn yr wythnosau nesaf er mwyn parhau i gynnal gwasanaethau Cyswllt Ffermio. Cofiwch fod modd i chi gysylltu â ni ar e-bost neu dros y ffôn os oes gennych ymholiad.

Gweler ein gwefan am fanylion cyswllt eich swyddog datblygu lleol.

www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813



Cyswllt Ffermio

- rhaglen gefnogaeth estynedig i
ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru.

08456 000 813

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

farmingconnect@menterabusnes.co.uk

